

**RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL**  
**WELSH LANGUAGE CABINET STEERING GROUP**  
**REPORT OF THE DIRECTOR OF EDUCATION AND LIFELONG LEARNING**

Authors: Wendy Edwards, Head of Community Learning (01443 744111) &  
Steffan Gealy, Service Manager – Welsh Language (01443 744079)

**CONSULTATION UNDERTAKEN WITH THE FFORWM IAITH ON THE DRAFT  
WELSH LANGUAGE PROMOTION STRATEGY**

**1. Purpose of the Report**

- 1.1 The purpose of the report is to provide the Committee with the results of the consultation undertaken with the Fforwm Iaith on the draft Welsh Language Promotion Strategy.

**2. Recommendations**

It is recommended that the Welsh Language Cabinet Steering Group:

- 2.1 Consider the content of the report;
- 2.2 Discuss the feedback provided by Fforwm Iaith;
- 2.3 Decide whether to accept the recommendations made by Fforwm Iaith in respect of the draft strategy prior to referring the draft strategy for consideration by Cabinet.

**3. Background**

- 3.1 The Council is required by standard 145 of the Compliance Notice issued under section 44 of Welsh Language (Wales) Measure 2011 to develop a 5 Year Strategy to promote and facilitate the use of the Welsh language in the county borough and to publish the strategy on the Council's website by 30<sup>th</sup> October 2016. This strategy must include:
- A target (in terms of the percentage of speakers in the county) for increasing or maintaining the number of Welsh speakers in the county by the end of the 5 year period;
  - Statement setting out how the Council intends to reach that target.

- 3.2 The strategy must be reviewed and a revised version placed on the Council website within 5 years of its publication.
- 3.3 Since the issuing of the Compliance Notice on 30<sup>th</sup> September 2015 (as amended in September 2016), the Welsh Government has developed, and consulted on its own draft strategy *A million Welsh speakers by 2050*. If this strategy is approved by Welsh Government in its current form, Councils will need to identify challenging targets in order to contribute to the ambitious vision of 1 million Welsh speakers by 2050. The national context needs to be considered when considering the Council's own strategy for the promotion and facilitation of the Welsh Language.
- 3.4 At a meeting held on 10<sup>th</sup> October, 2016 the Committee decided to refer the draft Welsh Language Promotion Strategy to the county's Fforwm Iaith as the strategy in its current form identifies targets for their member organisations as well as targets that specifically relate to the Council. As such it was felt that each organisation should have an opportunity to identify whether the targets assigned to them were realistic or whether additional support would be required in order to achieve them.

#### **4. Fforwm iaith feedback and recommendations**

- 4.1 A meeting of Fforwm Iaith took place on 4<sup>th</sup> November, 2016 where the only topics for consideration were the draft Welsh Language Promotion Strategy and the Welsh in Education Strategic Plan (WESP). The full Fforwm Iaith feedback can be seen at Appendix 1.
- 4.2 Due to the integral nature of the above documents it was recognised that targets set in the WESP need to be consistent with targets and actions relating to education and early years provision identified in the Welsh Language Promotion Strategy if the strategy is to achieve its aim of increasing the number of Welsh speakers in the county borough over the next five years and beyond.
- 4.3 In general although Fforwm Iaith members welcomed the fact that a draft strategy had been developed, there was concern that in its current format the strategy placed responsibility on other organisations for achievement of many of the targets whereas the responsibility for the implementation of the strategy, from a legal perspective, lies entirely with the Council. It was also noted that whereas the Council would be accountable to the Welsh Language Commissioner for the achievement of the targets outlined in the strategy, it would be unable to influence the performance of partners unless it had a Service Level Agreement with these organisations for the delivery (and funding) of specific targets especially those that were over and above what they are currently funded to deliver.

- 4.4 An in-depth discussion took place between members and it was recommended that the strategy should be split into two parts in order to identify areas of responsibility and accountability:
- Part 1 should identify what the Council is responsible for delivering and/or facilitating;
  - Part 2 should identify what other organisations are already funded to deliver and what targets they are required to meet under their current contracts.
- 4.5 Any gaps in provision that are evident and which need to be addressed in order to achieve the overall target set in respect of the increase in the number of Welsh speakers within the next 5 years, will need to be considered, and a decision taken by appropriate Council services as to whether they will need to commission external partners to address them.
- 4.6 Members of Fforwm Iaith identified their readiness to work with the Council to achieve the targets set in the draft strategy but noted that a lack of capacity was an issue for all of them.

## **5. Conclusion**

Members of Fforwm Iaith recognise that they have an important role to play in the development of the Welsh language in the county borough. Most of the member organisations have been involved in this work over many decades and have an excellent track record for provision of Welsh language services. However, the members were concerned that the draft strategy appeared to place a responsibility on them that exceeded their remit and capacity and would also potentially place the Council in a precarious position of having to report on outcomes over which they had no control.

The recommendations highlighted above are designed to clarify the responsibilities of the Council for implementation of the Welsh Language Promotion Strategy while recognising the contribution that can be made by Fforwm Iaith members to the overall outcome under their current funding regimes. It should also make it easier for the Council to identify any shortfall in provision that needs to be addressed if the overall aim of increasing the percentage of Welsh speakers in the county borough is to be achieved over the next 5 years.

## **Appendix 1 Full Fforwm Iaith feedback**

**CYNGOR BWRDESITREF SIOL RHONDDA CYNON TAF**  
**GRŴP LLYWRIO'R CABINET AT FATEIRON Y GYMRAEG**  
**ADRODDIAD CYFARWYDDWR ADDSYG A DYSGU GYDOL OES**

Awduron: Wendy Edwards, Pennaeth Addysg yn y Gymuned (01443 744111)  
Steffan Gealy, Rheolwr Gwasanaethau Cymraeg (01443 744079)

**YMGYNGHORIAD AELODAU'R FFORWM IAITH O RAN STRATEGAETH**  
**HYBU'R GYMRAEG CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

**1. Diben yr adroddiad**

- 1.1 Diben yr adroddiad yw rhoi'r manylion i'r Pwyllgor am ganlyniadau'r ymgynghoriad gydag aelodau'r Fforwm Iaith o ran Strategaeth Hybu'r Gymraeg.

**2. Agymhellion**

Dyma'r argymhellion i Aelodau o'r Pwyllgor

- 2.1 Pwyso a mesur cynnwys yr adroddiad;
- 2.2 Trafod adborth a ddarparwyd gan Fforwm Iaith;
- 2.3 Penderfynu a ddylid derbyn argymhellion y Fforwm Iaith o ran y strategaeth ddrafft cyn cyfeirio'r strategaeth drafft i'w ystyried gan y Cabinet.

**3. Cefnidr**

- 3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor, o dan safon 145 ei Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i baratoi Strategaeth 5 Mlynedd i hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y fwrdeistref sirol ac i gyhoeddi'r strategaeth ar y wefan y Cyngor erbyn 30<sup>ain</sup> Hydref 2016. Rhaid i'r strategaeth gynnwys:

- targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn y sir) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a
  - Datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw.
- 3.2 Rhaid i'r Cyngor adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar ei wefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth.
- 3.3 Ers cyhoeddi'r Hysbysiad Cydymffurfio ar 30<sup>ain</sup> Medi 2015 (fel y'i diwygiwyd ym mis Medi 2016), mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu, ac yn ymgynghori ar ei strategaeth ddrafft ei hun *Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050*. Os yw'r strategaeth hon yn cael ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn ei ffurf bresennol, bydd gofyn i Gynghorau nodi targedau heriol er mwyn cyfrannu at y weledigaeth uchelgeisiol o feithrin miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rhaid ystyried y cyd-destun cenedlaethol wrth i'r Cyngor ystyried ei strategaeth ei hun ar gyfer hybu a hwyluso'r Gymraeg yn Rhondda Cynon Taf.
- 3.4 Mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 10<sup>fed</sup> Hydref 2016 penderfynodd y Pwyllgor i gyflwyno'r Strategaeth Hybu gerbron Fforwm Iaith y sir gan ei bod yn nodi targedau ar gyfer y sefydliadau sy'n aelodau o'r Fforwm yn ogystal â thargedau sy'n benodol i'r Cyngor. Fel y cyfryw, teimlwyd y dylai pob sefydliad gael y cyfle i nodi a yw'r targedau a bennwyd ar eu cyfer yn realistig neu a fyddai angen cymorth ychwanegol er mwyn eu cyflawni.

#### **4. Adborth ac Argymhelion y Fforwm Iaith**

- 4.1 Cynhaliwyd cyfarfod o'r Fforwm Iaith ar 4<sup>ydd</sup> Tachwedd 2016. Yr unig bynciau dan hystyriaeth oedd y Strategaeth Hybu drafft a'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae adborth llawn Cadeirydd y Fforwm Iaith yn Atodiad 1.
- 4.2 Yn sgil natur annatod y dogfennau uchod cydnabuwyd y dylai targedau'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg fod yn gyson â'r targedau a'r camau gweithredu sy'n ymwneud â darpariaeth addysg a blynyddoedd cynnar y Strategaeth Hybu os yw'r strategaeth honno am gyflawni ei nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol dros y pum mlynedd nesaf a thu hwnt.

- 4.3 Yn gyffredinol, er bod aelodau o'r Fforwm Iaith yn croesawu'r ffaith bod y strategaeth ddrafft wedi'i pharatoi, roedd pryder bod y strategaeth ar ei ffurf bresennol gosod cyfrifoldeb ar sefydliadau eraill ar gyfer cyflawni nifer o'r targedau tra bod y cyfrifoldeb am weithredu'r strategaeth, o safbwynt cyfreithiol, yn gorwedd yn gyfan gwbl gyda'r Cyngor. Nodwyd hefyd, tra byddai'r Cyngor yn atebol i'r Comisiynydd Iaith am gyflawni'r targedau a amlinellir yn y strategaeth, fyddai'r Cyngor ddim yn gallu dylanwadu ar berfformiad partneriaid oni bai ei fod wedi tynnu Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r sefydliadau ar gyfer darparu (a chyllido) targedau penodol, yn enwedig y rhai sy'n ychwanegol at yr hyn y maen nhw'n cael eu hariannu ar hyn o bryd i'w cyflenwi.
- 4.4 Cynhaliwyd trafodaeth fanwl rhwng aelodau ac argymhellwyd y dylai'r strategaeth gael ei rhannu'n ddwy ran er mwyn pennu meysydd amlwg o ran cyfrifoldeb ac atebolrwydd
- Dylai rhan 1 nodi beth mae'r Cyngor yn gyfrifol am ei ddarparu a / neu'i hwyluso;
  - Dylai Rhan 2 nodi pa sefydliadau eraill sydd eisoes yn cael eu hariannu i ddarparu a pha dargedau y mae'n ofynnol iddynt fwrw o dan eu contractau cyfredol.
- 4.5 Bydd angen ystyried mynd i'r afael ag unrhyw fylchau amlwg yn y ddarpariaeth er mwyn cyrraedd y targed cyffredinol a bennwyd o ran cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y 5 mlynedd nesaf a bod gwasanaethau priodol o du'r Cyngor yn dod i benderfyniad ar gomisiynu partneriaid allanol i lenwi'r bylchau hynny.
- 4.6 Nododd aelodau'r Fforwm Iaith eu parodrwydd i weithio gyda'r Cyngor i fwrw targedau'r strategaeth ddrafft ond nodwyd bod diffyg capasiti yn fater i bawb.
- 5. Casgliad**
- 5.1 Mae'r Fforwm Iaith yn cydnabod bod swyddogaeth bwysig iawn gyda nhw o ran datblygu'r Gymraeg yn y fwrdeistref sirol. Mae'r rhan fwyaf o'r sefydliadau sy'n aelodau wedi bod yn rhan o'r gwaith yma am ddegawdau ac mae hanes rhagorol gyda nhw o ran darparu gwasanaethau Cymraeg. Fodd bynnag, roedd yr aelodau yn bryderus bod y strategaeth ddrafft yn ymddangos ei bod yn gosod cyfrifoldeb arnyn nhw sy'n mynd y tu hwnt i'w cylch gorchwyl a'u gallu a byddai hyn hefyd yn bosibl yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa fregus o orfod adrodd ar ganlyniadau tu hwnt ei reolaeth.

- 5.2 Mae'r argymhellion a amlygwyd uchod wedi'u cynllunio i egluro cyfrifoldebau'r Cyngor o ran gweithredu'r Strategaeth Hybu a chydabod cyfraniad aelodau'r Fforwm Iaith at y deilliannau cyffredinol o dan eu cyfundrefnau cyllido presennol. Dylai'r argymhellion hefyd wneud pethau'n haws i'r Cyngor o ran nodi unrhyw ddiffyg yn y ddarpariaeth o ran y nod cyffredinol o gynyddu canran y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol dros y 5 mlynedd nesaf.

#### **Atodiad 1** Adborth llawn Cadeirydd y Fforwm Iaith

## TRANSLATION

### Rhondda Cynon Taf's Fforwm Iaith response to Rhondda Cynon Taf County Borough Council's Welsh Language Promotion Strategy

A draft version of Rhondda Cynon Taf's Welsh Language Promotion Strategy was received in October 2016 in accordance with Welsh Language Standards 145 and 146.

The Forum's view was that it is a comprehensive strategy and it has the potential to be far-reaching. The document was carefully considered and there was an opportunity for input and observations. The responses are divided into the headings and requirements below

1. Target
2. Education
3. Action Plan

Detailed observations can be found under each headline as noted above.

#### **1. Target**

An ambitious but achievable target must be set to ensure a comprehensive and consistent action to tie-in with Welsh Government's target of achieving a million Welsh Speakers by 2050.



A comprehensive target is noted to increase the percentage of Welsh speakers in Rhondda Cynon Taf by 3.7% within the next 5 years, in order to raise the percentage from 12.3% (2011 census) to 15% (2021 census). Based on 2011 population figures, this reflects an increase of 6,054 Welsh speakers.

To achieve this, specific groups need to be targeted, as is noted in the action plan. It is proposed that far-reaching targets should be set as part of:

- 1.1. The Education Strategy in order to increase the numbers in Welsh medium education (see education heading)
- 1.2. Youth / Young People. Currently there is a decrease of about 10% who speak Welsh between young people at school age and young adults (about 2,000 people). This group should be specifically targeted to ensure that investment in Welsh medium education is successful in terms of language use post education.
- 1.3. Transferring the language at home. Put plans in place which would ensure more Welsh speakers in the long term.

01443 40 75 70

[www.menteriaith.cymru](http://www.menteriaith.cymru)

 [menterrhondda.cynontaf](https://www.facebook.com/menterrhondda.cynontaf)  
 [@menteriaithRhCT](https://twitter.com/menteriaithRhCT)

Rhif elusen / charity no: 1053135



- 1.4. Adult Education. Ensure that Welsh lessons for adults and skills development opportunities are widely available with the intention of increasing the numbers of adults who are confident in using their Welsh.
- 1.5. Activities, services and events for all ages, especially children and young people in order to improve their ability and nurture their enthusiasm to use their Welsh in social situations.

We believe that the necessary headings to achieve this work are incorporated in the action plan, although clarity is needed regarding responsibilities for accomplishing the work.

## 2. Education

We believe that clarity is needed between the promotion strategy and the education strategy and that targets noted in the education strategy should be included in this document under the education heading. The strategy focuses on implementing plans in partnership with schools and beyond school boundaries. The current targets for growth in education are not new; rather they only re-affirm current actions. Information from the education strategy should first be sought in order to add to these targets.

Both strategies should work simultaneously in terms of sharing information where appropriate and intertwine to ensure an increase in both numbers and percentage of Welsh speakers in the County Borough.

Some points regarding the information and the targets set were also raised:

- 2.1 A need to be more strategic and plan new schools to ensure that Welsh schools are within reasonable reach of everyone and respond to the change in emphasis within government in terms of creating demand rather than responding to demand.
- 2.2 The numbers of children who are in education and who are in schools in total need to be noted, i.e. on p23 and 24, the numbers who are in statutory education in RCT Primary schools and the capacity of the schools are noted, however these figures do not reflect their true capacity, as the numbers do not include non-statutory (Nursery).
- 2.3 The advantages of Welsh medium education should be promoted and communicated at all levels – to the public and amongst Council officers.

01443 40 75 70

[www.menteriaith.cymru](http://www.menteriaith.cymru)

 [menterrhondda.cynontaf](https://www.facebook.com/menterrhondda.cynontaf)

 [@menteriaithRhCT](https://twitter.com/menteriaithRhCT)

Rhif elusen / charity no: 1053135

# Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb

## *The Welsh language belongs to all of us*

- 2.4 It's essential that there is progression through the statutory stages of education and within post 16 education and beyond. The offer to pupils must be attractive and the same academic and vocational options must be made available in both languages. These progression routes should be promoted to school pupils so they understand the opportunities to continue with Welsh medium education in further and higher education.
- 2.5 Related to the point above, career pathways are essential as a way of underlying the importance of Welsh as a skill in the workplace. This should be part of the WESP in recognising schools' responsibilities to seek work experience opportunities, promote Welsh as a skill for employment.
- 2.6 Information needs to be shared between the Education Strategy and the promotion strategy in relation to early years education, social clubs and schemes for school pupils.

### 3. Action Plan

This document is the Promotion Strategy for Rhondda Cynon Taf County Borough Council. We believe that the heading 'responsibility' in the action plan is misleading. There are a number of actions within the plan which are additional to the current remit of external organisations. We believe that only Council actions should be in this plan along with consideration regarding the possibility of creating agreements/contracts with external organisations where relevant in order to undertake this work. A chart of Welsh partners' current targets operating within the County Borough could be created, although this should only be for information purposes rather than as part of Council performance.

01443 40 75 70

[www.menteriaith.cymru](http://www.menteriaith.cymru)

 [menterrhondda.cynontaf](https://www.facebook.com/menterrhondda.cynontaf)

 [@menteriaithRhCT](https://twitter.com/menteriaithRhCT)

Rhif elusen / charity no: 1053135

## Ymateb FForwm Iaith Rhondda Cynon Taf i strategaeth hybu'r Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Croeswyd drafft mis Hydref 2016 o strategaeth hybu'r Gymraeg Rhondda Cynon Taf yn unol â safonau'r Gymraeg 145 ac 146.

Cred y fforwm oedd ei fod yn strategaeth gynhwysfawr a'i fod yn meddu ar y potensial o fod yn bell gyrhaeddol. Trafodwyd y ddogfen yn fanwl gan groesawi mewnbyn a sylwadau a gellir rhannu'r ymatebion yma o fewn y penawdau a'r gofynion isod:

1. Targed
2. Addysg
3. Cynllun gweithredu

Ymhelaethwn ar y sylwadau fesul pennawd fel y nodir uchod

### **1. Targed**

Mae angen gosod targed uchelgeisiol ond cyrhaeddadwy er mwyn sicrhau gweithrediad cynhwysfawr a chyson i gyd fynd â tharged Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.


Cynigir darged cynhwysfawr o dyfu canran y siaradwyr Cymraeg o fewn Rhondda Cynon Taf o 3.7% ymhen y 5 mlynedd nesaf er mwyn codi'r canran o 12.3% (cyfrifiad 2011) i 15% (cyfrifiad 2021). Yn seiliedig ar niferoedd poblogaeth 2011 golyga hyn dwf o 6,054 o siaradwyr Cymraeg.


Er mwyn cyrraedd y nod hwn, dylid targedu carfannau penodol fel sydd yn cael ei nodi yn y cynllun gweithredol. Cynigir y dylid gosod targedau pell gyrhaeddol o fewn y:

- 1.1. Strategaeth Addysg er mwyn codi'r niferoedd sy'n derbyn addysg Gymraeg (gweler bennad addysg)
- 1.2. Ieuenctid / oedolion ifanc. Yn bresennol gwelir gwmp o oddeutu 10% sy'n siarad Cymraeg rhwng ieuenctid oed Ysgol ac oedolion ifanc (tua 2,000 o bobl). Dylid targedu'r grŵp yma'n ddwys er mwyn sicrhau bod buddsoddiad addysg Gymraeg yn dwyn ffrwyth defnydd iaith wedi i'r cyfnod addysg ddod i ben.
- 1.3. Trosglwyddiad iaith yn y cartref. Gweithredu cynlluniau fyddai'n sicrhau mwy o siaradwyr Cymraeg hir dymor

01443 40 75 70

[www.menteriaith.cymru](http://www.menteriaith.cymru)

 [menterrhondda.cynontaf](https://www.facebook.com/menterrhondda.cynontaf)

 [@menteriaithRhCT](https://twitter.com/menteriaithRhCT)

Rhif elusen / charity no: 1053135

# Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb

## *The Welsh language belongs to all of us*

- 1.4. Addysg Oedolion. Sicrhau argaeledd eang i wersi Cymraeg i oedolion a datblygu sgiliau o fewn y gweithlu er mwyn codi'r niferoedd o oedolion sy'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg
- 1.5. Gweithgareddau, digwyddiadau a gwasanaethau i bob oed, yn enwedig plant a phobl ifanc er mwyn tyfu eu gallu a'u brwdfrydedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol

Credir bod y penawdau angenrheidiol i gyflawni'r gwaith hwn o fewn y cynllun gweithredu er bod angen eglurder ynglŷn â chyfrifoldebau cyflawni'r gwaith

## 2. Addysg

Credir bod angen eglurder rhwng y strategaeth hybu a'r strategaeth addysg ac y dylid cynnwys targedau'r strategaeth addysg yn y ddogfen hon o dan y pennawd addysg. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar weithredu cynlluniau mewn partneriaeth ag ysgolion ac y tu hwnt i furiau Ysgol. Nid yw'r targedau twf addysg sydd wedi eu nodi ar hyn o bryd yn rai newydd ond yn datgan cynlluniau sydd eisioes yn bodoli. Dylid aros am wybodaeth o'r Strategaeth addysg er mwyn ychwanegu at y targedau yma.


Dylai'r ddwy strategaeth fynd law yn llaw gan rannu gwybodaeth lle bo'n briodol a chydblethu er mwyn sicrhau twf mewn niferoedd a chanran siaradwyr Cymraeg y Sir.

Codwyd rhai pwyntiau ynglŷn â'r wybodaeth a'r targedau oedd wedi eu gosod:

- 2.1 Dylid bod yn fwy strategol a chynllunio ysgolion newydd i sicrhau bod ysgolion Cymraeg o fewn cyrraedd rhesymol i bawb ac ymateb i'r newid pwyslais o fewn y Llywodraeth o greu'r galw yn hytach nag ymateb iddo
- 2.2 Mae angen dangos niferoedd plant sydd mewn addysg ac o fewn muriau yr ysgolion yn gyfan gwbl. h.y. ar dudalennau 23 a 24 nodir niferoedd mewn addysg statudol o fewn ysgolion Cynradd y Sir a chapsiti'r ysgolion hynny ond nid yw'r ffigyrau yma'n adlewyrchu gwir gapasiti'r ysgolion hynny am nad yw'r niferoedd mewn addysg anstatudol (Meithrin) yn cael eu cynnwys. Mae hyn hefyd yn wir am yr ysgolion cyfun gyda myfyrwyr ôl 16 (tud. 25). Mae angen creu trydedd golofn sy'n nodi'r niferoedd yma.
- 2.3 Dylid sicrhau bod manteision addysg Gymraeg yn cael eu hyrwyddo a'u marchnata ar bob lefel. I'r cyhoedd ac hefyd i swyddogion y Cyngor.

01443 40 75 70

[www.menteriaith.cymru](http://www.menteriaith.cymru)



Rhif elusen / charity no: 1053135

# Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb

## *The Welsh language belongs to all of us*

- 2.4 Mae'n hanfodol bod dilyniant ar hyd y cyfnodau addysg statudol ac i fewn i addysg ol-16 a thu hwnt. Mae'n rhaid bod y cynnig i ddisgyblion yn ddeniadol, a bod yr un opsiynau academaidd a galwedigaethol ar gael yn y ddwy iaith. Dylid sicrhau bod y llwybrau dilyniant hyn yn cael eu hyrwyddo i ddisgyblion ysgol fel eu bod yn deall y cyfleoedd i barhau i dderbyn addysg Gymraeg mewn addysg bellach ac uwch.
- 2.5 Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, mae llwybrau gyrfaoel yn hollbwysig fel ffordd o danlinellu pwysigrwydd y Gymraeg fel sgil yn y gweithle. Dylai hyn fod yn rhan o'r WESP gan adnabod y cyfrifoldeb ar ysgolion ac asiantaethau eraill i sicrhau cyfleoedd profiad gwaith, hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil cyflogadwyedd.
- 2.6 Mae angen rhannu'r wybodaeth rhwng y Strategaeth Addysg a'r Strategaeth hybu wrth drafod addysg blyneddol cynnar, clybiau a chynlluniau cymdeithasol ar gyfer disgyblion Ysgol.

### 3. Cynllun gweithredu

Strategaeth hybu ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw'r ddogfen hon. Credwn bod y pennawd 'cyfrifoldeb' o fewn y cynllun gweithredu yn gamarweiniol. Mae nifer o'r gweithrediadau o fewn y cynllun yn rhai ychwanegol i gylch gweithredu presennol mudiadau allanol. Credwn yn dylid sicrhau mai gweithrediadau'r Cyngor yn unig sydd yn y cynllun gan ystyried posibilrwydd o greu cytundebau gan fudiadau allanol lle bo'n berthnasol er mwyn cyflawni'r gwaith. Gellid hefyd greu siart dargedau presennol partneriaid Cymraeg sy'n gweithredu o fewn y Sir, ond siart er gwybodaeth fyddai honno, nid un y gellid ei gynnwys fel cyflawniad y Cyngor.

01443 40 75 70

[www.menteriaith.cymru](http://www.menteriaith.cymru)

 [menterrhondda.cynontaf](https://www.facebook.com/menterrhondda.cynontaf)

 [@menteriaithRhCT](https://twitter.com/menteriaithRhCT)

Rhif elusen / charity no: 1053135